

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Practis Meddygol Waterside  
Dyddiad y gweithgarwch: 6 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Meddygol Waterside (y practis) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn un o ddau sy'n gweithredu o Ganolfan Iechyd Llansawel ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol i bobl Llansawel a'r cyffiniau. Mae'r pedwar partner hefyd yn cynnal dau bractis arall yn yr ardal leol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd ac arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 6 Mai 2021 a oedd yng nghwmni un o'r partneriaid, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gall y practis gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau y mae'r practis wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau yn wyneb COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys yr asesiadau risg COVID-19 diweddaraf o'r amgylchedd. Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau yr oeddent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd rheolwr y practis y newidiadau a gafodd eu gwneud i'r amgylchedd yn sgil y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cofrestru gydag askmygp<sup>1</sup>, sy'n blatfform ar-lein. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi arwain at gynnydd mewn capasiti gyda mwy o apwyntiadau gyda chlinigwyr ar gael. Roedd yna system un ffordd ar waith ar gyfer symud cleifion yn y practis, gyda marcwyr dau fetr ar y llawr i sicrhau pellter cymdeithasol. Cafodd seddau eu hynysu hefyd er mwyn cyfyngu ar nifer y cleifion yn y practis. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod wal stydiau wedi'i gosod er mwyn cynorthwyo â'r broses un ffordd a chadw pellter cymdeithasol. Cafodd mynediad ffisegol i'r practis ei gyfyngu hefyd a chafodd mesurau eu cyflwyno i leihau nifer yr ymwelwyr, gan gynnwys anfon presgripsiynau'n syth i'r fferyllfa berthnasol a phostio nodiadau salwch.

Dywedodd rheolwr y practis eu bod yn gallu cadw'r practis ar agor gan fod pobl yn glynu wrth gadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys aelodau o'r staff yn eistedd dau fetr oddi wrth ei gilydd. Roedd sgriniau perspex mawr yn eu lle rhwng gweithfannau i roi diogelwch ychwanegol. Roedd masgiau'n cael eu gwisgo drwy'r amser wrth symud o gwmpas yr adeilad ac roedd y partneriaid yn gweithredu polisi dim goddefgarwch o ran diffyg cydymffurfiaeth gan staff. Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael sgrybs o radd feddygol y maen nhw'n parhau i'w defnyddio. Roedd y staff yn newid i mewn i sgrybs wrth gyrraedd y gwaith ac wedyn yn newid allan o'r sgrybs mewn ardal frwnt cyn gadael.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn Waterside wedi mynd yn ardal goch, roedd cleifion yr amheuyd bod COVID-19 arnynt a chleifion wedi'u rhyddhau o'r ysbyty gyda COVID-19 wedi'u gweld yma. Roedd yr adeilad yn eiddo i'r bwrdd iechyd a wnaeth hefyd hwyluso rhai o'r newidiadau. O ganlyniad, dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cwblhau'r asesiad risg amgylcheddol. Yn ogystal, cawsom gopïau o asesiad risg COVID-19 a gynhaliwyd, gan

---

<sup>1</sup> System ar-lein ar gyfer ymgynghoriadau a llif gwaith yw *askmyGP* sy'n helpu meddygon teulu i reoli llwyth achosion cleifion drwy newid gweithredol a brysennu digidol. Fe'i gwneir yn haws i gleifion siarad â'u meddyg eu hunain ac mae'n helpu meddygon teulu i flaenoriaethu a darparu gofal drwy negeseuon, galwadau fideo a thros y ffôn.

---

ddefnyddio dogfen a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a oedd yn cynnwys y camau gweithredu oedd yn cael eu cyflawni. Yn ogystal, gwelsom y cynllun gweithredu i ddatrys unrhyw broblemau.

I'r cleifion, lle'r oedd amheuaeth o COVID-19 neu lle cafwyd symptomau COVID-19, dywedwyd wrthym fod dwy ystafell driniaeth wedi'u dyrannu gydag eitemau cyfyngedig ym mhob un er mwyn gallu glanhau'r ystafelloedd yn haws. Gofynnodd y clinigwyr gwestiynau COVID-19 perthnasol i'r cleifion, cyn gadael y claf i mewn i'r practis. Wedyn, gwnaed prawf gwaed ar y claf gan ddychwelyd y canlyniadau ymhen pum munud. Roedd y cleifion yn aros yn y car neu y tu allan i'r practis hyd nes iddynt gael y canlyniadau.

Disgrifiwyd y system a oedd yn cael ei defnyddio i fynd i apwyntiadau ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r cleifion benderfynu pwy fyddai'r person mwyaf priodol i ateb yr alwad. Roedd yna system brysbennu gyda chlinigydd hefyd, er mwyn penderfynu pwy oedd angen ymgynghoriad dros y ffôn a phwy oedd angen triniaeth wyneb yn wyneb. Defnyddiwyd dulliau ar-lein fel ffotograffau dienw hefyd i helpu i nodi'r anhwylderau.

Cawsom wybod y gofynnwyd i gleifion a oedd yn gwarchod i beidio â mynd i'r practis, cynigiwyd ymweliadau cartref iddynt lle bo angen, gan gynnwys ymweliadau gan nyrs ardal. Dywedwyd wrthym fod y practis yn poeni hefyd lle nad oedd cleifion a oedd yn gwarchod wedi cysylltu â nhw a'u bod yn cysylltu â'r cleifion hyn ac yn anfon parseli bwyd atynt.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn troi at linell iaith ar gyfer y rhai nad oeddent yn medru'r Saesneg. Roedd nodiadau mewn cofnodion clinigol lle'r oedd cleifion yn cael trafferth cyfathrebu.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau y gwnaethom eu hadolygu roedd:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i Covid-19
- Amserlenni glanhau
- Data hyfforddi ar gyfer staff mewn atal a rheoli heintiau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiwyd y broses a gafodd ei defnyddio i sicrhau bod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cael trafferth wrth ddarparu

---

ffedogau plastig i ddechrau. Dywedodd rheolwr y practis eu bod wedi cael gafael ar eu cyfarpar diogelu personol eu hunain yn ogystal â phrynu sgryps<sup>2</sup>, peiriant golchi dillad a bagiau golchi. Roedd y peiriant golchi dillad yn cael ei ddefnyddio gan y staff, a oedd yn dilyn y gweithdrefnau golchi cywir. Roedd y cyfleusterau hyn ar waith o hyd, rhag ofn y byddai achosion pellach o COVID-19 yn lleol.

Dywedwyd wrthym fod un o'r partneriaid, a oedd â phrofiad anesthetig, wedi creu fideo i gynorthwyo'r staff i fod yn hyderus ac i allu defnyddio cyfarpar diogelu personol, a chynhaliodd sesiynau tiwtorial ar y pwnc hefyd. Dilynodd yr hyfforddiant hwn gyngor Cymdeithas Feddygol Prydain<sup>3</sup> (BMA). Roedd y clinigwyr yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn seiliedig ar ganllawiau, gyda'r staff gweinyddol yn defnyddio sgryps a masgiau wrth symud o gwmpas y practis. Disgrifiwyd yr hyfforddiant ychwanegol a ddilynodd, er mwyn cefnogi'r staff i roi gofal effeithiol yn ystod y pandemig. Cwblhaodd y meddygon teulu hyfforddiant ar-lein hunangyfeiriedig ac anfonwyd gwybodaeth berthnasol at staff gyda derbynebaw darllen i sicrhau eu bod wedi agor y dogfennau. Yn ogystal, rhoddwyd diweddariadau ar lafar hefyd pan gafodd newidiadau eu gwneud i'r canllawiau.

Cawsom gofnodion hyfforddiant atal a rheoli heintiau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau. I'r staff clinigol, roedd y dystiolaeth yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau lefel dau trwy GIG Cymru. Gwnaeth staff anghlinigol gwblhau hyfforddiant mewnol ar ddiheintio dwylo, gweithdrefnau golchi dwylo, gweithdrefnau sterileiddio, defnyddio cyfarpar diogelu personol a'r defnydd diogel o offer miniog a chael gwared arnynt.

Dywedodd rheolwr y practis ei bod yn ofynnol i glinigwyr yr oedd angen iddynt fynd ar ymweliadau cartref fynd trwy asesiad risg cyn ymweld â'r cartrefi, er mwyn lleihau'r risg o gael eu heintio â COVID-19. Yn ogystal, dywedwyd wrthym am y rhagofalon yr oedd yn rhaid eu cymryd yng nghartref y cleifion cyn ac yn ystod yr ymweliad. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi aelodau eraill o'r teulu mewn ystafelloedd gwahanol a gofyn am unrhyw hanes dros y ffôn cyn yr ymweliad. Roedd yr ymweliad yn y cartref ond yn cynnwys archwilio'r claf. Wedyn, byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei drafod dros y ffôn y tu allan i gartref y claf. Cyflenwyd cyfarpar diogelu personol ychwanegol ar gyfer yr ymweliad cartref, a oedd yn cynnwys feisorau a masgiau FFP3<sup>4</sup>.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud i lanhau'r practis. Roedd y

---

<sup>2</sup> Sgryps yw'r dillad glanweithiol y mae llawfeddygon, nyrsys, meddygon a gweithwyr eraill sy'n ymwneud â gofal cleifion mewn ysbytai'n eu gwisgo. Cawsant eu dylunio'n wreiddiol i'w gwisgo gan lawfeddygon a phersonél eraill yn yr ystafell lawdriniaeth wrth sterileiddio eu hunain cyn Llawdriniaeth ("scrubbing in" yn Saesneg). Mae sawl aelod o bersonél yr ysbyty yn eu gwisgo erbyn hyn. Mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei ymestyn y tu allan i ysbytai hefyd, i amgylcheddau gwaith lle gallai dillad ddod i gysylltiad â chyfryngau heintus.

<sup>3</sup> Mae'r BMA yn cynrychioli, yn cefnogi ac yn negodi ar ran holl feddygon a myfyrwyr meddygol y DU.

<sup>4</sup> Caiff yr angen i wisgo masg FFP3 (masg untro ar gyfer y trwyn a'r geg er mwyn anadlu'n ddiogel) ei nodi drwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i ddiogelu rhag pathogenau a ledaenir drwy anadlu. I ddefnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r aelodau perthnasol o staff gael prawf ffitio wyneb er mwyn sicrhau y gall y masg ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithiol ag sy'n ofynnol.

---

derbynyddion yn gyfrifol am eu hardaloedd gwaith eu hunain a chafodd y staff eu cyfyngu i un ddesg. Lle bu claf gyda COVID-19 yn y practis, cafodd yr ystafelloedd eu chwistrellu â niwl diheintio<sup>5</sup> er mwyn rheoli lledaeniad COVID-19. Cafodd y practis (a'r ganolfan iechyd ehangach) ei lanhau gan gontractwr allanol. Cawsom dystiolaeth o'r amserlenni glanhau am y tri mis diwethaf, a ddangosodd fod y glanhau wedi dilyn y gofynion cytundebol cytûn. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael chwistrelli a weips diheintio, yn ogystal â geliau glanhau dwylo.

Mae'r polisi atal a rheoli heintiau cyfredol, a gafodd ei ddarparu fel tystiolaeth, yn cyfeirio hefyd at yr egwyddorion a amlinellwyd ym Mhrotocol Rheoli Heintiau (sylweddau biolegol) a Rhestr Wirio Rheoli Heintiau'r practis.

Cawsom wybod y bu nifer fach o achosion o COVID-19 yn y practis yn ystod y pandemig. Cawsom dystiolaeth gan y bwrdd iechyd a nododd y cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan lechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r rhagofalon a gymerwyd. Cawsom nhw sicrwydd hefyd gan y mesurau atal a rheoli heintiau a chadw pellter cymdeithasol a oedd ar waith ar draws y tri phractis. Yn ogystal, gwelsom gofrestr risg COVID-19 a ddangosodd y camau a oedd yn cael eu cymryd yn dibynnu ar lefel y risg. Roedd y rhain yn cynnwys y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y practis ar gyfer brechlynnau a symud staff risg uchel i ddull tebyg i ganolfan alwadau o weithio o bell neu mewn un lleoliad lle mae modd cadw pellter cymdeithasol. Cafodd yr holl staff asesiad risg unigol gan feddygon teulu'r practis er mwyn holi ynghylch unrhyw gyflyrau iechyd isorweddol. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff wedi cymryd y cynnig i beidio â gorfod gweithio yn y practis i ddechrau, roedd y ddau bellach wedi dychwelyd i weithio yn y practis.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut yr oeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Ymhlith y prif ddogfennau y gwnaethom eu hadolygu roedd:

- Cynlluniau parhad busnes
- Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

---

<sup>5</sup><https://www.hse.gov.uk/coronavirus/disinfecting-premises-during-coronavirus-outbreak.htm>

---

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi rhoi gwybod i'r practis i stopio unrhyw wasanaethau ychwanegol<sup>6</sup> neu ofynion y Fframwaith Gwella Sicrwydd Ansawdd<sup>7</sup>. Dywedwyd wrthym hefyd er bod pigiadau Fitamin B12<sup>8</sup> wedi cael eu newid i gael y feddyginiaeth drwy'r geg ar bresgripsiwn, roedd y cleifion yn parhau i gael y pigiad perthnasol lle nad oedd hyn yn effeithiol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod wedi parhau i ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym, yn ogystal â'r meddygon teulu oedd yn bartneriaid, fod y practis yn defnyddio tri locwm yn rheolaidd hefyd. Yn ogystal, roedd tîm amlddisgyblaethol y practis yn cynnwys dau fferylllydd clinigol ac un ymarferydd cyhyrsgerbydol<sup>9</sup>. Roedd y tîm nyrsio'n cynnwys tair nyrs practis a dau weithiwr cymorth gofal iechyd. Nid oes gan y practis unrhyw swyddi gwag ar hyn o bryd.

Disgrifiwyd y trefniadau clwstwr<sup>10</sup>. Mae'r practis yn rhan o Rwydwaith Clwstwr Castell-nedd. Mae'r clwstwr yn cynnwys wyth meddygfa yn yr ardal amgylchynol ac yn ddiweddar roedd hefyd yn cynnwys rhwydwaith mwy ar ffurf fferyllfa, gwasanaeth optometreg, deintyddol, nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd a sefydliadau trydydd sector. Dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd fod y clwstwr newydd gyflogi rheolwr datblygu clwstwr a oedd yn allweddol wrth roi amryw brosiectau ar waith, sy'n cynnwys parafeddyg a fferylllydd i'r clwstwr. Disgrifiwyd mentrau eraill a gafodd eu cwblhau gan y clwstwr hefyd, sy'n cynnwys cydweithio i frechu cleifion mewn cartrefi gofal â brechlyn COVID-19.

Cawsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm y staff, lle cafodd y Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd, rhagnodi, goramser, y cofnod staff a materion yn ogystal ag unrhyw fater arall eu trafod. Yn ogystal, cawsom wybod bod gwybodaeth wedi'i throsglwyddo i'r staff yn y practis drwy gyfarfodydd llai a grwpiau anfon negeseuon diogel.

Disgrifiodd partner y practis y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol<sup>11</sup> (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniad wedi cael ei wneud mewn ffordd briodol a sensitif. Roedd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb y meddygon teulu i drafod â'r claf a'r teulu. Cynhaliwyd y drafodaeth hon o bell a byddai'r meddyg teulu'n cwblhau ac yn dosbarthu'r dogfennau perthnasol, er enghraifft i'r gwasanaeth y tu allan i oriau<sup>12</sup>.

---

<sup>6</sup>Mae gwasanaethau ychwanegol yn ffurfio'r drydedd haen o wasanaethau yn y fframwaith cytundebol a chânt eu comisiynu a'u hariannu gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru.

<sup>7</sup> [https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/directions-to-local-health-boards-as-to-the-statement-of-financial-entitlements-directions-2021\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/directions-to-local-health-boards-as-to-the-statement-of-financial-entitlements-directions-2021_0.pdf)

<sup>8</sup> Mae'r driniaeth ar gyfer anemia diffyg ffolad neu fitamin B12 yn dibynnu ar yr hyn sy'n achosi'r cyflwr. Gellir trin y rhan fwyaf o bobl yn hawdd drwy roi pigiadau neu dabledi i adfer fitaminau coll. Caiff anemia diffyg fitamin B12 ei drin fel arfer drwy roi pigiadau fitamin B12.

<sup>9</sup> Mae'r system gyhyrsgerbydol ddynol yn system organ sy'n galluogi pobl i symud gan ddefnyddio eu systemau cyhyrol ac ysgerbydol. Mae'r system gyhyrsgerbydol yn rhoi ffurf a sefydlogrwydd i'r corff, yn ei gynnal ac yn ei alluogi i symud.

<sup>10</sup> Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

<sup>11</sup> <https://www.nhs.uk/conditions/do-not-attempt-cardiopulmonary-resuscitation-dnacpr-decisions/>

<sup>12</sup>Y trefniadau i ddarparu mynediad i ofal iechyd ar adegau pan fydd meddygfeydd teulu ar gau.



---

Defnyddiwyd Porth Clinigol Cymru<sup>13</sup> i sicrhau bod y data a'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r cleifion, gan gynnwys gwybodaeth COVID-19, yn hysbys ac yn cael ei throsglwyddo i'r partïon perthnasol.

Gwelwyd copiâu o Gynllun Parhad Busnes COVID-19 y practis. Nod y ddogfen hon oedd darparu canllawiau a chynghor i baratoi ar gyfer pandemig fel coronafeirws neu lle teimlai'r practis nad oedd hi bellach yn ddiogel ymarfer mewn brigiad o achosion. Darparodd y ddogfen gryno hon awgrymiadau petai aflonyddwch difrifol.

Gwnaethom drafod â rheolwyr y practis ynghylch pa mor effeithiol y gall y practis a'r cleifion gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau. Dywedwyd wrthym y cafodd y cyswllt â gofal eilaidd ei gadw i isafswm yn ystod y pandemig, gan mai ychydig iawn o gleifion a gafodd eu hatgyfeirio at y gwasanaeth hwn. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y practis wedi creu cysylltiadau â'r timau iechyd meddwl ac aeth yr atgyfeiriadau yn eu blaen yn ôl yr arfer.

Cafodd y cyfathrebu a'r trefniadau gyda'r gwasanaethau y tu allan i oriau eu disgrifio fel rhai electronig gan mwyaf, ond bu oedi wrth dderbyn gwybodaeth. Er bod y practis yn ceisio sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth berthnasol, roeddent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth annigonol gan yr adrannau brys ar hyn o bryd. Yn ogystal, dywedwyd wrthym nad oeddent yn derbyn yn llawn y wybodaeth berthnasol mewn perthynas â rhyddhau cleifion. Er bod rhai ymgynghorwyr mewn ysbytai yn rhagweithiol wrth anfon gwybodaeth, roedd rhai crynodebau rhyddhau'n cael eu rhoi i'r cleifion ond nid oeddent yn dod i law'r practis bob tro. Roedd hyn yn cynnwys nad oedd y practis yn ymwybodol o'r feddyginiaeth a oedd yn cael ei rhagnodi i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi'i drafod â'r pwyllgor rheoli lleol<sup>14</sup> a bod y practis wedi cofnodi'r materion hyn ar Datix, sef y system a ddefnyddir i gofnodi digwyddiadau.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom dystiolaeth a ddangosodd fod staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn gyfredol gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd sylfaenol, atal a rheoli heintiau a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)<sup>15</sup>. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi nad oedd yr hyfforddiant diogelu ar gyfer staff anghlinigol bellach yn gyfredol. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai ffactorau fel y pandemig, diffyg hyfforddiant a phwysau eraill fod wedi effeithio ar hyn, credwn y dylid cadw at ddiweddarau'r hyfforddiant hwn i'r staff. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cynllunio ar gyfer yr hyfforddiant hwn ym mis Gorffennaf 2021.

Dylai'r practis wneud yn siwr bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau y caiff hyfforddiant yr holl staff ei ddiweddarau ar ôl i'r gofyniad gael ei nodi.

---

<sup>13</sup><https://gggc.gig.cymru/systemau-a-gwasanaethau/gofal-eilaidd/porth-clinigol-cymru/>

<sup>14</sup> Pwyllgorau lleol sy'n cynrychioli meddygon teulu'r GIG yw pwyllgorau rheoli lleol ac maent yn mynegi eu buddiannau i awdurdodau iechyd y GIG.

<sup>15</sup> <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Meddygol Waterside

Gwasanaeth Practis Meddygol Waterside

Dyddiad y gweithgarwch: 6 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Cawsom dystiolaeth a ddangosodd fod staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn gyfredol gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd sylfaenol, atal a rheoli heintiau a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi nad oedd yr hyfforddiant diogelu ar gyfer staff anghlinigol bellach yn gyfredol.	Safon 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg. Safon 7.1 Y Gweithlu	Mae disgwyl i'r holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu - mae tystiolaeth o'r rheiny sydd wedi cwblhau mewn LW yn cael ei darparu yn y ddogfennaeth ychwanegol sydd wedi'i chyflenwi. Bydd yr hyfforddiant bellach yn cael ei wneud ar-lein er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC fod yr hyfforddiant wedi'i wneud.	Roisin Jones	Cwblhawyd erbyn 30 Mehefin

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi trefnu'r hyfforddiant ar gyfer mis Gorffennaf.

Dylai'r practis wneud yn siwr bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau y caiff hyfforddiant yr holl staff ei ddiweddarau ar ôl i'r gofyniad gael ei nodi.

Mae'r hyfforddiant ar gyfer F2F GORFFENNAF yn dibynnu ar Ganllawiau Covid.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Roisin Jones

Dyddiad: 26/05/2021